

GOGLEDD CYMRU AC EWROP

BUDDSODDI MEWN DYFODOL MWY DISGLAIR AR GYFER GOGLEDD CYMRU

RHIFYN 1: MAWRTH 2014

Cynhyrchwyd gan Dim Ewropeaidd Arbenigol Gogledd Cymru ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

GOSOD Y SYLFEINI

Adeiladu'r
amgylchedd cywir
ar gyfer twf yng
Ngogledd Cymru




ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund


ESF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Social Fund

CYSYLLTEDD O'R RADD FLAENAF

Sut mae Gogledd Cymru yn
arwain y ffordd mewn
isadeiledd digidol a chlodiant.

HWB SWYDDI O GANOLFANNAU

Mae canolfannau menter yr ardal
wedi creu dros 1,000 o swyddi a
cheir addewid bod mwy ar y ffordd.

ADFYWIO ARDAL

Elwa ar gyllid Ewropeaidd i'n
galluogi i adeiladu lle gwell i fyw,
gweithio ac ymweld.

MAE CYLLID STRWYTHUROL
EWROPEAIDD YN HELPU **GOGLEDD
CYMRU** I ADEILADU DYFODOL MWY
DISGLAIR.

NOD **BWRDD UCHELGAIS
ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
YW CREU ARDAL HYDERUS GYDAG
ECONOMI AMRYWIOL AG IDDI WERTH
UCHEL, SY’N DARPARU CYFLEOEDD
CYFLOGAETH GYNALIADWY O
ANSAWDD DA AR GYFER EI PHOBL.



Creu'r **amgylchedd cywir** ar gyfer twf economaidd yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod y chwe blynedd diwethaf, mae'r buddsoddiad o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd wedi gosod y sylfeini ar gyfer pobl, busnesau a chymunedau Gogledd Cymru i gyflawni eu potensial economaidd llawn.

Gyda'r sylfeini yn eu lle, nawr yw'r adeg i adeiladu'r amgylchedd busnes cywir – y cam cyntaf at wella Gogledd Cymru.

"Rydym ni am wneud yn siŵr mai Gogledd Cymru yw'r dewis naturiol ar gyfer busnes – ond i greu'r amgylchedd hwn, mae'n rhaid i ni adeiladu lle gwell lle mae busnesau eisiau cychwyn arni a chael y gallu i ffynnu a thyfu," meddai'r Cynghorydd Hugh Evans, Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn dod â chwe chynghor lleol yr ardal at ei gilydd i ysgogi twf economaidd ar hyd a lled yr ardal.

CYSYLLTU

Yng Ngogledd Cymru, mae gwaith ar y gweill i wella isadeiledd yr ardal a fydd yn sicrhau bod mentrau yn gallu cyrraedd cwsmeriaid, cyflenwyr a chyfnewid gwybodaeth. "Rydym ni'n benderfynol o beidio â chael ein rhwystro gan rwydwaith isadeiledd israddol, felly rydym ni wedi canolbwyntio ar ein cysylltiadau cludiant, ynni a chysylltedd digidol," meddai'r Cynghorydd Evans.

"Un enghraifft yw'r ffaith mai ni yw un o'r ardaloedd cyntaf yn y DU i groesawu cyflwyno band eang cyflym iawn. Rydym ni'n adeiladu rhwydwaith digidol sy'n gallu cystadlu ag unrhyw le yn y byd. Erbyn 2016, bydd gan 96% o'r ardal fynediad at o leiaf 36mb fesul eiliad, felly bydd gan Gogledd Cymru un o'r rhwydweithiau digidol mwyaf datblygedig yn y byd."

CREU

Datblygiad allweddol arall fu creu tri pharth menter yn Ynys Môn, Eryri a Glannau Dyfrdwy a fydd yn creu lle i fuddsoddi i fusnesau lleol gychwyn ac ehangu. Mae'r parthau hyn eisoes wedi creu dros 1,000 o swyddi a disgwylir y bydd llawer mwy o swyddi.

ADFYWIO

Mae canol trefi a dinasoedd ar hyd a lled Gogledd Cymru yn cael eu hadfywio hefyd mewn ymgais i ddenu buddsoddiad preifat a chreu cyfleoedd am swyddi newydd i gefnogi cenedlaethau'r dyfodol.

FFAITH AM GYLLID

Er 2007, hyd yma mae prosiectau'r Undeb Ewropeaidd yng Ngogledd Cymru yn unig wedi helpu dros **6,400* o bobl i gael gwaith ac wedi creu 1,800* o fentrau.**

*Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) Ionawr 2014

Mae Parth Menter Glannau Dyfrdwy wedi creu dros 1,000 o swyddi



CYSYLLTU...

Prosiect Pont Briwet, Gwynedd



Mae twf busnes yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol yn dibynnu ar lefel uchel o gysylltedd busnes effeithlon, ac mae cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd yn eu helpu i gysylltu â gweddill y byd.

Bydd prosiect Cyflymu Cymru yn rhywbeth arloesol ar gyfer busnesau Gogledd Cymru. Mae'r cynllun band eang ffibr cyflym, y disgwylir y bydd yn cysylltu 96% o gartrefi yng Ngogledd Cymru erbyn 2016, yn eu helpu i gael mynediad at farchnadoedd newydd, cyflawni trafodion yn gyflymach a rhoi hwb i'w helw.

Mae'r rhwydwaith cludiant wedi elwa ar fuddsoddiad sylweddol hefyd – yr A470 a'r A55 yn benodol – a bydd cynllun £20 miliwn Pont Briwet yng Ngwynedd yn gwella cysylltiadau rhwng Meirionydd ac Ardudwy.

CREU...

Gwnaed buddsoddiadau i greu'r lle i fusnesau Gogledd Cymru gychwyn, ehangu a rhoi hwb i gyfleoedd busnes newydd.

Mae'r Parthau Menter, a sefydlwyd ar Ynys Môn, Eryri a Glannau Dyfrdwy i roi hwb i economi Gogledd Cymru, eisoes wedi helpu i greu swyddi – a disgwylir y bydd miloedd yn fwy o rolau yn dod i'r ardal. Mae ffigurau wedi dangos bod Parth Menter Glannau Dyfrdwy wedi creu 1,000 o swyddi a chafwyd llawer mwy o ymholiadau ar gyfer cwmnïau sydd am adleoli yn yr ardal.

Bydd y prosiect Safleoedd ac Adeiladau yn mynd i'r afael â'r diffyg unedau busnes modern ar Ynys Môn trwy ddatblygu safle £1.5 miliwn yn Llangefni.

Mae'r Rhyl wedi croesawu buddsoddiad o £1.2 miliwn mewn adeiladau busnes ac mae prosiect £1.5 miliwn ym Motwnnog ar Benrhyn Llŷn wedi creu canolfan fusnes ar gyfer unedau busnes, swyddfeydd, cyfleusterau cynadledda, ystafelloedd TG a gweithdai.

Canolfan Fenter Congl Meirion ym Motwnnog



Prosiect adfywio Gwesty'r Bee & Station, Y Rhyl



AC ADFYWIO

Buddsoddwyd miliynau o bunnoedd mewn amrywiaeth o gynlluniau adfywio ar hyd a lled Gogledd Cymru i ddenu buddsoddiad preifat, swyddi ac ymwelwyr i'r ardal.

Mae cynlluniau yn cynnwys prosiect Adfywio Canol Trefi Gogledd Ddwyrain Cymru yn Sir y Fflint a Wrecsam, Cynlluniau Adfywio Tair Tref Ynys Môn, gwerth £8.7 miliwn, yn Llangefni, Amlwch a Chaergybi, prosiectau Parc a Phorth Eirias Bae Colwyn a chanolfan gelfyddydau Pontio ym Mangor, gwerth £44 miliwn, y disgwylir iddo greu neu ddiogelu 450 o swyddi.

Mae tref glan y môr Y Rhyl yn elwa ar brosiect adfywio £9 miliwn hefyd i adennill ei statws fel cyrchfan gwyliau teuluol a lleoliad siopa poblogaidd.

HWB I SWYDDI YNG NGLANNAU DYFRDWY



Mae cwmni cynnyrch meddygol wedi cyhoeddi buddsoddiad o £3.7 miliwn yn ei Barc Diwydiannol yng Nglannau Dyfrdwy a fydd yn creu 67 o swyddi.

Mae ConvaTec, sy'n cyflogi 600 o bobl, yn creu rhwymynnau ar gyfer clwyfau yn ei ganolfan gynhyrchu ar Ystâd Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy.

Bydd y buddsoddiad yn creu 67 o swyddi ac yn diogelu 16 o swyddi, trwy gyflwyno ychwanegiad newydd at ei rhwymynnau Aquacel Foam. Bydd canolfan i ddarparu cymorth gyda chyfrifon a chyllid yn cael ei chreu yng Nglannau Dyfrdwy hefyd.

Mae Ystâd Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy yn rhan o brosiect Parciau Busnes Strategol Gogledd Ddwyrain Cymru sy'n helpu cwmnïau ar Ystadau Diwydiannol Wrecsam a Glannau Dyfrdwy i ddatblygu eu gwasanaethau ac ennill mwy o fasnach.

www.deesideindustrialpark.co.uk



Safle ConvaTec yng Nglannau Dyfrdwy

maximize the possibilitiesTM



GORSAF YN PARATOI CROESO CYNNES

Disgwylir y bydd gwaith gwella yng ngorsaf drenau Llandudno wedi'i orffen erbyn mis Mai 2014.

Bydd y prosiect £5.1 miliwn sy'n cael cyllid Ewropeaidd yn gwella cyfleusterau i deithwyr ac yn gwneud teithio ar y rheilffordd yn ddewis mwy deniadol i bobl leol.

Dywedodd Aelod Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, y Cynghorydd Philip Evans: "Bydd yr orsaf reilffordd yn gaffaeliad gwych i Llandudno – gan greu argraff gyntaf ragorol o'r dref ymhlith ymwelwyr."



AFYWWIO I ANNOG YMWELWYR

Mae gwaith wedi cael ei wneud ar Stryd y Brenin yn Wrecsam i adfywio'r ardal a chreu amgylchedd mwy deniadol ar gyfer pobl leol, ymwelwyr a busnesau.

Fel rhan o brosiect Adfywio Canol Trefi Gogledd Ddwyrain Cymru, mae'r buddsoddiad gwerth £1.5 miliwn wedi helpu i drawsnewid un o brif strydoedd y dref.

Nod y prosiect yw annog y 4 miliwn o bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau bysiau ar Stryd y Brenin bob blwyddyn i dreulio mwy o amser yng nghanol y dref a gwario mwy o arian yno.



TRAWSNEWID I DDENU BUDDSODDIAD



Mae prosiect ar y gweill yn Llangefni i drawsnewid tir ac adeiladau a ddatblygwyd yn flaenorol yn unedau busnes modern.

Roedd prinder safleoedd busnes modern ar Ynys Môn yn cael effaith negyddol ar ddenu buddsoddiad gan y sector preifat.

"Mae angen i ni gael yr isadeiledd cywir i annog buddsoddwyr a galluogi busnesau i dyfu," dywedodd Aled Morris Jones, deiliad portffolio datblygu economaidd Ynys Môn.

Bydd y prosiect yn helpu i wneud iawn am y prinder difrifol o unedau busnes yn Llangefni trwy adeiladu pedair uned enghreifftiol i fodloni'r galw a nodwyd, gan gynnwys paneli solar a chamau cynaliadwyedd eraill sy'n cyfrannu at gyflawni statws "Rhagorol" BREEAM.

www.anglesey.gov.uk/business/regeneration-and-investment/sites-and-premises-project



CANOLFAN GELFYDDYDAU YN RHOI HWB I ECONOMI DINAS

Bydd Canolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio £44 miliwn ym Mangor, y disgwylir iddi agor yn Hydref 2014, yn rhoi hwb sylweddol i'r economi leol.

Gall y ganolfan "drawsnewid Bangor a bod yn ganolfan ar gyfer busnes lleol ac adfywio economaidd," yn ôl Is-Ganghellor Prifysgol Bangor, yr Athro John Hughes.

"Bydd yn lle unigryw, sydd â'r potensial i adfywio Bangor," ychwanegodd.

www.pontio.co.uk



Adeiladu Canolfan Pontio ym Mangor

GWELLA EIRIAS

Mae Bae Colwyn yn dangos arwyddion calonogol i ailymddangos yn gyrcfan i ymwelwyr ac yn ganolfan fasnachol a manwerthu.

Diolch i fuddsoddiad o £52 miliwn – wedi'i gefnogi gan Gronfeydd yr Undeb Ewropeaidd – mae'r trawsnewid parhaus wedi achosi cynnydd mewn busnes ym Mae Colwyn a bu cynnydd o 5% yn nifer y bobl a ymwelodd â'r dref yn 2013.

Cafodd y cynlluniau adfywio, sy'n cynnwys datblygiad £6.5 miliwn Parc Eirias a Phorth Eirias, sy'n werth £3.7 miliwn, eu cydnabod yng ngwobrau cenedlaethol Placemaking eleni hefyd am eu hymagwedd arloesol a difyr at adfywio a datblygiad economaidd lleoliad.

www.colwynbaywatersports.co.uk



Porth Eirias ym Mae Colwyn



NWYDDAU HAEARN YN CYFLYMU



Mae'r gwerthwyr nwyddau haearn traddodiadol R Gwynedd Evans a'i Feibion wedi bod yn rhan o Stryd Fawr Pwllheli er 1856.

Yn 2006, fe wnaethant agor siop ar y rhyngwrwyd, www.ukironmonger.com – sef un o blith llond llaw yn unig o werthwyr nwyddau haearn y DU sy'n masnachu ar-lein.

“Yn sgil y newid mewn tueddiadau siopa, mae cael y siop ar-lein wedi helpu i ni gynnal ein presenoldeb ar y stryd fawr ym Mhwllheli,” dywedodd y perchennog Glenys Owen (gweler yn y llun ar y chwith).

Gan fod Pwllheli ymhlith y cyntaf yn y DU i gael y band eang cyflym iawn, disgwylir i R Gwynedd Evans fanteisio ar hyn yn llawn: “Mae'r band eang cyflymder uchel yn golygu ein bod ni'n gallu gweithio'n gyflymach ac yn graffach – ac rydym ni'n gallu cystadlu ag unrhyw un yn y byd!” ychwanegodd Glenys.

www.gwynedd.gov.uk/digidol



DAL EFFAITH BUDDSODDIAD AR GAMERA


Mae Tîm Ewropeaidd Arbenigol Gogledd Cymru wedi cyhoeddi cyfres o fideos o Ewrop a Gogledd Cymru hefyd sy'n edrych ar effeithiau Cyllid Strwythurol Ewropeaidd 2007-13 ar fusnesau, cymunedau a phobl Gogledd Cymru.



TAITH I WAITH
www.bit.ly/nwconnect



**Y GRONFA
FUDDSODDI LEOL**
<http://bit.ly/lifnwww>



LLWYDDO'N LLEOL
<http://bit.ly/llwyddolleol>



**PROSIECTAU
ADFYWIO FFISEGOL**
www.bit.ly/PhysReg



**CANOLFAN
RHAGORIAETH ERYRI**
<http://bit.ly/fideorhag>

Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gan Dîm Ewropeaidd Arbenigol Gogledd Cymru ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae'r Tîm Ewropeaidd Arbenigol, sydd wedi'i leoli yn y 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, yn gweithio tuag at sicrhau bod y rhanbarth yn cael y budd mwyaf o gyllid Ewropeaidd drwy ddarparu amrywiaeth o gymorth i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd, a sicrhau y caiff ei weithredu'n effeithiol. Mae Timau Ewropeaidd Arbenigol yn bodoli ar draws Gymru ac mewn gwahanol sectorau, o Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

www.tinyurl.com/EuropeNorthWales

